Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

# Plas Y Bryn

**Cartref Nyrsio Plas Y Bryn, 31 Tan Y Bryn Road, Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn, LL28 4AD**

**01492544117**

**Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu: 18 Mehefin 2025.**

17/06/2025

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Elmtree Healthcare Limited |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â nyrsio, Darpariaeth ar gyfer iechyd meddwl |
| Lleoedd cofrestredig: | 18 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae darparwr y gwasanaeth yn gwneud ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Chymorth | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Mae cartref gofal Plas Y Bryn wedi'i leoli mewn ardal breswyl yn Llandrillo-yn-Rhos sy'n agos at amwynderau lleol. Gall y bobl fynd allan a chânt eu cefnogi i barhau i fod yn rhan o'r gymuned leol. Mae gweithlu craidd sy'n darparu parhad i'r bobl ac sy'n gwybod eu hanghenion yn dda. Mae staff newydd yn cael eu recriwtio yn barod ar gyfer yr estyniad newydd i'r cartref. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn dweud bod y staff yn garedig ac yn barod eu cymwynas.

Mae gan y cartref asesiadau risg ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae estyniad newydd yn cael ei adeiladu i'r cartref ac mae trefniadau diogelu ar waith i liniaru risgiau. Mae gan y cartref rhaglen barhaus o ailaddurno a chynnal a chadw i sicrhau bod yr amgylchedd yn gartrefol i'r bobl. Dywedodd y bobl eu bod yn gallu dewis y décor a'r dodrefn ar gyfer eu hystafelloedd i sicrhau eu bod yn gyfforddus. Mae'r cyfarpar sydd ei angen ar gyfer gofal y bobl ar gael iddynt a chaiff hyn ei wasanaethu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel.

Caiff y gwasanaeth ei lywodraethu a'i oruchwylio'n dda i sicrhau safonau da i'r bobl. Mae rheolwr interim wedi cael ei benodi, mae'r swydd yn cael ei hysbysebu i sicrhau parhad mewn arweinyddiaeth yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn darparu goruchwyliaeth o'r gwasanaeth a chefnogaeth ar gyfer yr uwch-aelodau o'r staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyflwyno adroddiadau ar ansawdd yn unol â'r rheoliadau.

## Canfyddiadau:

### Llesiant — Da

Mae'r bobl yn byw bywyd iach a diogel; cânt ddewis ac mae gweithgareddau ystyrlon ar gael iddynt. Gwelsom ryngweithio cyfeillgar rhwng y bobl, y staff gofal a'r nyrsys (staff). Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn diwallu eu hanghenion mewn modd sensitif. Dywedodd un person wrthym, "*Staff are kind, they help me a lot.*" Mae un person gweithgareddau newydd wedi cael ei recriwtio ac mae gan yr uwch-dîm o staff yn y gwasanaeth obeithion mawr ar gyfer darparu gweithgareddau i'r bobl. Gwelsom y bobl yn mynd am dro, a dywedodd un person wrthym, "*I get out and about for walks.*" Gwelwyd rhai o'r preswylwyr yn canu caraoce ar ddiwrnod yr arolygiad; roedd eraill yn gwylio'r teledu. Dywedodd un person ei fod yn mwynhau pobi a dywedodd person arall ei fod yn mwynhau canu. Gwelsom galendr o weithgareddau ar y wal i'r bobl. Mae gyrrwr ar gael i fynd â phobl i apwyntiadau iechyd, caiff asesiadau risg eu cynnal ar gyfer diogelwch y bobl a'r gyrrwr ar gyfer y teithiau hyn. Mae un person yn hoff o deithio, ond yn gorfforol nid yw'n gallu, felly mae'r staff wedi dod o hyd i wefan sy'n rhoi awgrymiadau dyddiol ar gyfer gweithgareddau mewn gwledydd gwahanol, fel petai'r person dramor, a gall hefyd weld bwydlenni, posteri teithio a lluniau o arian cyfred. Mae'r bobl sy'n dewis ysmygu yn gwneud hynny yn yr awyr agored. Mae hyn mewn ardal amgaeedig oherwydd gwaith adeiladu ar y tir. Mae asesiadau risg wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael dewis o ran beth i'w fwyta, a beth maent am ei wneud yn ystod y dydd. Mae'r darparwr yn gweithio tuag at gynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg i'r bobl; gall rhai staff siarad Cymraeg. Mae llenyddiaeth Gymraeg ar gael i'r bobl a gallant gael cardiau cyfarch Cymraeg pan fydd dathliadau.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu canlyniadau llesiant. Dywedodd rhai o'r bobl wrthym fod y gwaith adeiladu yn achosi pryder iddynt, ond maent yn ymwybodol y byddent yn dod i ben a bydd ystafelloedd mwy a lifft newydd. Gall y bobl ddewis y décor yn eu hystafelloedd eu hunain ac yn yr ardaloedd cymunedol. Mae rhai pobl yn cadw anifeiliaid anwes yn eu hystafelloedd a chânt gymorth gan y staff i ofalus amdanynt ac i gadw'r amgylchedd yn lân. Dywedodd un person ei fod yn gwerthfawrogi cael anifeiliaid anwes am eu bod yn ei gadw'n hamddenol ac yn rhoi pethau i'w wneud iddo. Mae'r preswylwyr yn gweithio gyda'r rheolwr i ddylunio ystafell sydd â thema o fwyty Americanaidd ar y llawr cyntaf. Mae cynlluniau ar waith i newid swyddfa ar y llawr cyntaf yn ystafell ddistaw/ llyfrgell i'r bobl ei defnyddio.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom o'r cofnodion hyfforddiant, bod y staff yn cael hyfforddiant diogelu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw wedi cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu ac maent yn ymwybodol o'r protocolau lleol ac yn gwybod â phwy i gysylltu os byddant yn poeni am ofal y bobl. Mae gan y bobl na allant

adael eu cartref oherwydd eu diogelwch eu hunain, Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith i ddiogelu eu hawliau. Gall y bobl na allant eirioli drostynt eu hunain ddefnyddio eiriolwr annibynnol i siarad ar eu rhan.

## Gofal a Chymorth — Da

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol. O'r cynlluniau personol a ddewiswyd, gwelsom fod y bobl yn ganolog i'w cynllun gofal. Caiff dewisiadau'r bobl, eu hanes personol a'r bobl sy'n bwysig iddynt eu nodi. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd, mewn perthynas â rheoliadau, i sicrhau eu bod yn aros yn briodol i anghenion gofal y bobl. Caiff yr asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd hefyd i sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru gymaint â phosibl, i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae uwch-aelodau o'r staff yn asesu'r bobl cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref i sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion yn briodol. Gall y bobl gael gafael ar ofal meddygol a chânt eu hadolygu mewn modd amserol ac adolygiadau seiciatrig. Caiff y bobl eu cynorthwyo i fynychu apwyntiadau gofal iechyd a gallant fynd at ddeintydd, ciropodeg ac optegydd. Mae'r bobl yn profi newidiadau i'w hanghenion gofal, a chânt eu dogfennu, a chaiff asesiadau risg eu diweddaru. Cofnodir dewisiadau iaith gyntaf y bobl; mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Gwelsom ryngweithio da rhwng y bobl a'r staff; mae'r staff yn gyfarwydd ag anghenion y bobl yn dda ac yn gallu rhagweld eu hanghenion. Mae mwy o staff wedi cael eu recriwtio ar gyfer y cartref, yn enwedig wrth ystyried yr ystafelloedd ychwanegol yn yr estyniad newydd. Mae grŵp craidd o staff sy'n gyfarwydd i'r bobl ac maent yn darparu parhad gofal.

Mae meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel yn y cartref. Caiff meddyginiaethau eu storio'n briodol mewn ystafell dan glo. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o'r meddyginiaethau sy'n mynd i mewn i'r cartref ac yn gadael y cartref. Caiff meddyginiaethau eu rhoi i'r bobl yn unigol mewn perthynas â'r presgripsiwn a chânt eu llofnodi Gall y bobl gael eu meddyginiaethau mewn ffordd amserol. Mae prosesau archwilio ar waith i sicrhau bod swm cywir o feddyginiaethau, arferion rhoi meddyginiaeth dda, bod tymereddau amgylchynol yn cael eu profi i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol a diogel. Mae'r staff yn cael hyfforddiant meddyginiaeth a hyfforddiant gloywi i gefnogi arferion da.

Mae gan y gwasanaeth systemau diogelu ar waith ar gyfer diogelwch y bobl. Mae'r gwasanaeth yn dryloyw yn ei drafodaethau ac wrth roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n effeithio ar weithrediad hwylus y gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r awdurdodau perthnasol mewn perthynas â deddfwriaeth. Caiff cofnodion eu cadw o ddamweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu rhannu â'r Unigolyn Cyfrifol a'r staff i sicrhau gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus ac y bydd myfyrio ar y gwersi i'w dysgu. Mae gan y gwasanaeth brotocol unigolyn coll ar waith. Caiff mynegiannau o ymddygiadau o bryder eu monitro a chaiff systemau diogelu eu rhoi ar waith i liniaru risgiau iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cynnwys cyfleusterau a chyfarpar priodol, sydd mewn cyflwr da. Mae gan y cartref dîm o staff glanhau ymroddedig. Caiff llwybrau cerdded ac allanfeydd tân eu cadw'n glir i sicrhau diogelwch y bobl ac i liniaru risgiau o ddisgyn. Ar hyn o bryd, mae gwaith adeiladu o amgylch y tŷ am fod estyniad i'r adeilad yn cael ei greu. Mae asesiadau risg wedi cael cynnal ar gyfer ardaloedd awyr agored, ac mae mesurau diogelwch wedi cael eu rhoi ar waith. Gwelsom fod gwiriadau a thystysgrifau cyfleustodau ar waith ar gyfer nwy, trydan a dŵr. Cynhelir profion larwm tân yn wythnosol, ac mae hyfforddiant diweddaru yn cael ei roi i'r staff ar wagio'r adeilad os bydd tân. Caiff y cyfarpar sydd ei angen ar gyfer gofal y bobl ei wasanaethu fel sy'n ofynnol gan y gwneuthurwr er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod cadeiriau olwyn wedi cael eu glanhau a'u gwasanaethu. Mae'r gwasanaethau golchi dillad yn unol â'r rheoliadau, ac mae peiriant sychu dillad newydd wedi cael ei brynu. Mae gan y cartref rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac ailaddurno er mwyn cynnal safonau amgylcheddol da. Gwelsom fod coridorau ar y llawr cyntaf a rhai o'r ystafelloedd wedi cael eu paentio'n ddiweddar. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis eu décor ar gyfer eu hystafelloedd eu hunain er mwyn eu gwneud yn gartrefol. Mae asesiadau risg iechyd a diogelwch a pholisïau ar gyfer yr adeilad yn gyffredinol ar waith.  Mae polisi newydd ar waith mewn perthynas â pholisi i beidio ysmygu o fewn yr adeilad. Mae'r bobl sydd yn ysmygu yn yr adeilad yn cael llythyr cynghori ac yn cael eu hatgoffa o'r polisi i beidio ysmygu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau am fod llywodraethu da ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae gwiriadau ansawdd ac archwiliadau effeithiol ar waith i sicrhau safonau da i'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn creu adroddiad ansawdd ddwywaith y flwyddyn yn dadansoddi barn y bobl, eu teuluoedd a'r staff am y gwasanaeth, yn asesu amgylchedd y cartref ac unrhyw waith cynnal a chadw sy'n ofynnol, yn cynnal archwiliadau o'r bobl sydd wedi cwympo a rheoli heintiau a marcwyr ansawdd eraill. Mae dogfen Datganiad o Ddiben ar waith sy'n cael ei chadw yn gyfredol. Mae'r ddogfen ar gael i'r bobl ac mae'n disgrifio beth y gallant ddisgwyl o'r gwasanaeth a beth mae'n cynnig iddynt. Mae rheolwr dros dro yn ei le, ac mae swydd y rheolwr wedi cael ei hysbysebu i sicrhau arweinyddiaeth dda a sefydlogrwydd ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r cartref yn cyfathrebu'n agored ag AGC a'r awdurdodau lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth a sut y caiff ei gyflawni.

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Gwnaethom ddewis ffeiliau'r staff ar hap, a gwelsom fod gwiriadau cyflogi ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn briodol i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol blynyddol i'w helpu yn eu rôl. Caiff y staff eu goruchwylio bob tri mis yn unol â'r rheoliadau a chânt gefnogaeth pan fo'i hangen arnynt. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn cael eu cefnogi gan uwch-dîm o staff ac maent yn cadarnhau eu bod yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth reolaidd.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

**Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.**

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*